Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 26 Mai 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, Meirion Jones, A. Williams, Mervyn Jones, E. Parry,
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: B. Jones, D. Williams, J. Evans (Cynghorwr Sirol)

2. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd
2.1 Cytunwyd I ail ethol yr un Cadeirydd ac Is-gadeirydd a 2014 yn unol a hynny sydd wedi ei gytuno yn flaenorol gan y Cyngor Bro.

3. Datganiadau Diddordeb.
Mi ddatganwyd ddiddordeb gan Dafydd Owen (clerc) yn eitem 18.6

4. Cyfrifon mis Ebrill 2015
3.1 J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

5. Materion y Cyngor Sir
5.1 Meirion Jones yn nodi fod y Cynghorydd Jim Evans wedi ei ethol yn Gadeirydd yn y Cyngor Sir.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Ebrill 2015
5.1 J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

7. Materion yn codi
7.1 Twr Marcwis - Llythyr wedi'i yrru i'r Asiant i ofyn am ymateb swyddogol neu wahodd iddynt ddod i gyfarfod y Cyngor Bro. Nodwyd fod trigolion yn cwyno am gyflwr y safle a'i bod yn awyddus i sefydlu trefniant i gynnal a chadw'r safle.
7.2 Plac ar dy Kyffin Williams – Clerc i ysgrifennu at asiant Plas Newydd i weld os yw nhw yn fodlon cael plac ar y ty neu'r stiwdio.
7.3 Paentio'r Neuadd Goffa – Nodwyd fod E. Parry bron a gorffen y gwaith.
7.4 Grid Cenedlaethol - Nodwyd y dylid disgwyl i weld pwy fydd yr Aelod Seneddol ar ôl yr etholiad cyffredinol cyn edrych i ymgynghori gyda ef neu hi.
7.5 Bwrdd Iechyd - A. Mummery wedi trafod gyda Linda West, nodwyd fod y staff ddim yn fodlon cerdded o Faes Parcio y Neuadd Goffa yn tywyllwch. A. Mummery wedi gofyn I Linda West drafod gyda'i uwch-swyddogion ac yn disgwyl diweddariad.
7.6 Llwybr beicio – H, Huws am baratoi adroddiad er mwyn hysbysu Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.
7.7 The pension regulator - clerc i gael gwybodaeth bellach gan Un Llais Cymru I weld os oes effaith ar y Cyngor Bro wedi'r newidiadau
7.8 Cysgodfa Bws a Swyddfa y Cyngor Bro – A. Jones wedi derbyn prisiau gan Martin Jones ar gyfer y gwaith ail-baentio. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio I weithredu I ofyn iddo wneud y gwaith.
7.9 Cyflenwad trydan y Clwb Snwcer – Cyfarfod am ei gynnal ar 9 Mehefin I drafod y defnydd uchel o drydan a dyfodol y clwb. Clerc I baratoi rhaglen ar gyfer y cyfarfod.

8. Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Fynwent 19 Mai 2015
8.1 G. Parry yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.
9. Materion yn codi
9.1 Gwaith ar y safle – G. Parry a E. Parry am gyfarfod ar y safle i drafod y gwaith sydd ei angen ar y coed, ac hefyd I drefnu gosod planhigion newydd ar y safle.

10. Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae 12 Mai 2015
10.1 A. Jones yn cynnig, Mervyn Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

11. Materion yn Codi
11.1 Maes Aml-bwrpas – Clerc I baratoi hysbyseb i'r Papur Newydd lleol I weld os oes galw am ei ddefnyddio
11.2 Gwybodaeth am ariannu – Pwyllgor Meysydd Chwarae wedi gofyn I gael gosod main newydd arall yn y Maes chwarae. A. Mummery yn cynnig, Meirion Jones yn eilio i archebu mainc newydd tebyg I'r un newydd sydd wedi'i gosod yn y Parc yn ddiweddar.
11.3 Sbwriel yn y Maes chwarae – A. Mummery wedi trafod gyda Colin Roberts a mae wedi bod yno yn hel sbwriel, ond mae lot dal yn casglu yno. Mervyn Jones yn cynnig, Meirion Jones yn eilio y dylid y Cyngor Bro gysylltu gyda'r Ysgol I edrych iddynt i gael ymgyrch I plant a rhieni hel y sbwriel.

12 Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Neuadd Goffa 12 Mai 2015
12.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

13. Materion yn Codi
13.1 A. Mummery yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Cytunwyd I dalu honorarium o £150 I Anwen Le Cras am ei gwaith fel gofalwr yn y Neuadd Goffa.

14. Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 19 Mai 2015
14.1 A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

15. Materion yn codi
15.1 Clerc I ddilyn I fyny hefo Anwen pha gwmnïau a elusennau sydd yn derbyn arian gan y Cyngor Bro ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Cyllid nesaf.

16 Cyflwyno Awdit Mewnol
16.1 J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd I fod yn gywir. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio, cytunwyd i hefyd rhoi tal o £100 I Anwen Le Cras am ei gwaith ar gyfer cyflwyno yr awdit.

17. Ceisiadau Cynllunio
17.1 31C423A/LB – Cais am ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer dymchwel yr estyniad yn y cefn ynghyd ag addasu ac ehangu yn 2 Tyddyn Pwyth, Llanfairpwll – Dim sylw
17.2 31C381D – Cais llawn ar gyfer dymchwel rhan o estyniad presennol ynghyd ag addasu ac ehangu yn Dryll y Bowl, Llanfairpwll – Dim sylw
17.3 31C424/ENF – Cais ol-weithredol I gadw sied ardd yn 9 Stad Maes y Waen, Llanfairpwll – Dim sylw
17.4 31C170D – Cais llawn I godi 17 annedd (12 gyda 2 ystafell wely, 4 gyda 3 ystafell wely a 1 byngalo gyda 3 ystafell wely) ynghyd a chreu mynedfa newydd I gerbydau a cerddwyr ar dir ger Hen Lon Dyfnia, Llanfairpwll – Nodwyd mai yn orffennol, mae hawl cynllunio amlinellol wedi'i rhoi ar y tir hwn yn amodol bod gwaith I wella y gornel ffordd Penmynydd yn Cael ei wneud. Clerc I ymateb yn pryderu y dylai hyn fod yn yr amodau cynllunio os yw'n cael ei gymeradwyo.

18. Gohebiaeth
18.1 Cyngor Sir Ynys Môn – Cais cynllunio 31C351A wedi diddymu – Derbyn y wybodaeth
18.2 National Grid – Llythyr yn gwahodd y Cyngor Bro i gyflwyniad 28 Mai 2015 – Nodwyd fod H. Huws, A. Mummery, G. C. Jones a J. Roberts fynychu y cyfarfod
18.3 Llythyr William Hughes Estates – Derbyn y cyfraniad a wybodaeth
18.4 Cyngor Sir Ynys Môn – Datblygiad newydd gan Roberts Construction Ltd – Tir ger Cae Cyd – A. Mummery yn cynnig, Mervyn Jones yn eilio. cytunwyd i gynnig 'Ffordd y Rhos' fel enw ar y stad arfaethedig
18.5 Cyngor Sir Ynys Môn – Llythyr cadarnhau derbyn cais grant – Diolchwyd I A. Mummery a J. Roberts am eu gwaith.
18.6 Cyngor Sir Ynys Môn – Prydles Safle Maes Parcio Ty'n Rhos – Adolygiad rent – cytunwyd i'r telerau newydd.

18.7 Cyngor Sir Ynys Môn – Gostwng oed mynediad Ysgol Llanfairpwll – Derbyn y wybodaeth
18.8 AON – Yswiriant – Cytunwyd I gario ymlaen gydag Aon yn seiliedig are eu dyfynbris.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 30 Mehefin 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad **85**